

RICHARD, HENRY (1812 - 1888), gwleidyddwr

Enw: Henry Richard
Dyddiad geni: 1812
Dyddiad marw: 1888
Priod: Matilda Augusta Richard (née Farley)
Rhiant: Mary Richard (née Williams)
Rhiant: Ebenezer Richard
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gwleidyddwr
Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
Awdur: Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd 3 Ebrill 1812 yn Nh Gwyn, Tregaron, ail fab [Ebenezer Richard](#) a'i wraig Mary (merch William Williams o Dregaron). Wedi ei enedigaeth symudodd y teulu i Prospect House, Tregaron. Cafodd ei addysg yn ysgol Llangeitho, a'i brentisio yn 1826 i ddilledydd yng Nghaerfyrddin; yna penderfynodd ymgeisio am y weinidogaeth, ac aeth i Goleg Highbury, yn Llundain. Ordeiniwyd ef 11 Tachwedd 1835 yn weinidog ar gapel yr Annibynwyr yn yr Old Kent Road, Llundain, a bu yno nes iddo ymddeol o'r weinidogaeth ym Mehefin 1850.

Dechreuodd yn gynnar yn ei yrfa ymddiddori ym mhroblemau heddwch. Penodwyd ef yn 1848 yn ysgrifennydd y Gymdeithas Heddwch, ac aeth i Brussels i gynhadledd gydwladol ar y pwnc. Bu'n weithgar iawn yn y blynyddoedd dilynol yn trefnu cynadleddau mewn gwahanol wledydd ac yn gofalu am rai o gyhoeddiadau'r gymdeithas. Ceisiodd hefyd ddehongli Cymru i'r Saeson (soniai amdano'i hun fel lladmerydd); ysgrifennodd i'r Wasg Saesneg i esbonio helynt Beca, ac yn 1866 cyhoeddodd gyfres o lythyrau ar gyflwr cymdeithasol a gwleidyddol Cymru. Yn 1865 daethai allan yn ymgeisydd Rhyddfrydol dros sir Aberteifi, ond tynnodd yn ôl; eithr yn 1868 etholwyd ef â mwyafrif sylweddol yn aelod seneddol dros Ferthyr Tydfil. Safodd yn gadarn dros fuddiannau Cymreig ac Anghydfurfiol yn ystod ei dymor yn y Senedd. Yno, hefyd, yng Ngorffennaf 1873, llwyddodd i gario mesur o blaid cyflafareddiad rhwng y gwledydd.

Bu ganddo gysylltiad â Choleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, ac yn 1880 penodwyd ef yn aelod o'r pwyllgor a chwiliai i gyflwr addysg ganolradd ac uwchradd yng Nghymru a Mynwy. Dadleuai'n gryf yn erbyn ymyrraeth y wladwriaeth mewn materion crefyddol.

Priododd yn Awst 1866 â Matilda Augusta Farley, ond ni bu iddynt blant. Bu farw yn Nhreborth, ger Bangor, 20 Awst 1888, a chladdwyd ef ym mynwent Abney Park, Llundain. Mae iddo gofgolofn yno, a hefyd un ar sgwâr Tregaron.

Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography, a'r llyfryddiaeth a roddir yno

Darllen Pellach

Gwyn Griffiths, *Henry Richard: heddychwr a gwladgarwr* (Caerdydd 2013)

Erthygl Wicipedia: [Henry Richard](#)

Delweddau

C. W. Walton, [Henry Richard](#)

John Thomas, [Unveiling of the Henry Richard monument, Tregaron](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [89393973](#)

Wikidata: [Q5727523](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

